Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 14.10.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd Bangor – 8 Tachwedd 2022

Bydd menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd – mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – yn cynnal ffair swyddi ar gyfer pob sector yn Storiel, Bangor, ar 8 Tachwedd 2022 (10:00am-1:00pm). Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Yn y cyfamser gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd: https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# GWOBRAU: Gwobrau Dewi Sant 2023

Gwobrau Dewi Sant yw gwobrau cenedlaethol Cymru sy'n cydnabod llwyddiannau eithriadol pobl wahanol o Gymru a thu hwnt. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw 20 Hydref 2022. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/gwobrau-dewi-sant/am-y-gwobrau

# GWOBRAU: BAFTA Cymru 2022

Llongyfarchiadau i gwmnïau cynhyrchu teledu Gwynedd – Cwmni Da, Caernarfon; Darlun, Felinheli a Docshed, Y Felinheli, am ennill eu categorïau yn seremoni wobrwyo BAFTA Cymru 2022 yr wythnos diwethaf. Llongyfarchiadau hefyd i Chris Roberts o Gaernarfon am y wobr cyflwynydd yn Bwyd Byd Epic Chris. I ddarllen mwy, ewch i:

https://bit.ly/3CCgcQa

# ADNODDAU: Sticeri 'Yn falch o gefnogi'r Safle Treftadaeth y Byd'

Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru bellach yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, yn union fel y Taj Mahal a Phyramidiau yr Aifft. Mae modd i fusnesau ddangos eu cefnogaeth i'r Safle Treftadaeth y Byd drwy osod sticer 'Yn falch o gefnogi'r Safle Treftadaeth y Byd' yn ffenestr eu busnes. I ddysgu mwy, gwylio fideos a dod o hyd i adnoddau ar gyfer eich busnes, ewch i:

http://www.llechi.cymru/

Os ydych am dderbyn cyflenwad o'r sticeri cysylltwch gyda'r tîm ar: llechi@gwynedd.llyw.cymru

# CYFLE: Cystadleuaeth Cymorth Brandio gwerth £15,000 ar gyfer Busnesau Newydd yng Nghymru

Gall busnesau newydd yng Nghymru, sy'n weithredol ac wedi eu lansio o fewn y 3 blynedd ddiwethaf, ymgeisio am y pecyn cystadleuaeth Brand Labs, sy'n cynnwys dylunio a datblygu brand, gwefan ac ymgyrch lansio gwerth £15,000. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 28 Hydref 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://designdough.co.uk/branding-competition-brand-labs/

# IECHYD A DIOGELWCH: Atal straen a chefnogi iechyd meddwl yn y gwaith

Mae straen, iselder neu bryder eisoes yn cyfrif am tua hanner y salwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn y DU. Y cynharaf mae problem yn cael ei thaclo, po leiaf o effaith y bydd yn ei gael i'ch busnes. Gall pum cam syml o ymgyrch Working Minds yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) helpu busnesau i ddechrau arni, ewch i:

https://bit.ly/3CAGnqt

Cynhelir gweminar rhad ac am ddim i hyrwyddo iechyd meddwl da yn y gweithle, a chodi ymwybyddiaeth o'r mesurau ataliol y gall sefydliadau eu cymryd i nodi a rheoli straen sy'n gysylltiedig â gwaith, ar 18 Hydref 2022 (10:30am-11:30am).I ddarganfod mwy, ewch i:

https://bit.ly/3ezBF4v

# TRETH: Cyllid a Thollau EM yn rhybuddio y gallai cwsmeriaid Hunanasesu fod yn darged i dwyllwyr

Mae Cyllid a Thollau EM yn rhybuddio y dylai cwsmeriaid Hunanasesu, sy'n dechrau meddwl am eu ffurflenni treth blynyddol ar gyfer blwyddyn dreth 2021 i 2022, warchod rhag cael eu targedu gan dwyllwyr. Am fwy o wybodaeth am hyn, ewch i:

https://bit.ly/3ThkF1w

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru